# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

The Dental Studio, Llandudno / Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 9 Ionawr 2018

Dyddiad cyhoeddi: 10 Ebrill 2018

Gellir darparu’r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhydycar**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs:** **0300 062 8387**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**


ISBN digidol 978-1-78903-969-6

© Hawlfraint y Goron 2018

# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 6

3. Yr hyn a ganfuom ........ 7

   Ansawdd profiad y claf ........ 8

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........ 12

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 18

4. Beth nesaf? ........ 20

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ........ 21

   Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad ........ 22

   Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 23

   Atodiad C – Cynllun gwella ........ 24

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn sicrhau bod profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud dyfarniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn rydym yn ei weld**
- **Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull o weithredu yn effeithlon, yn effeithiol ac yn gymesur.**

# Ein blaenoriaethau

**Drwy ein gwaith, ein nod yw:**

| | |
|---|---|
| **Rhoi sicrwydd:** | **Rhoi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant drwy adrodd am arfer da a'i rannu.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o The Dental Studio yn 49 Stryd Madog, Llandudno, LL30 2TW, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 9 Ionawr 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Safonau Iechyd a Gofal 2015, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod The Dental Studio, Llandudno, yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol gyda staff sy'n gyfeillgar, yn broffesiynol ac yn ymroddedig. Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth, a gwelsom dystiolaeth fod cleifion yn fodlon iawn ar y driniaeth a'r gwasanaeth yr oedden nhw'n eu cael.
- Canfuom dystiolaeth fod hwn yn wasanaeth a gaiff ei redeg yn dda, gyda systemau effeithiol i gefnogi'r gwaith cyffredinol o reoli ac arwain y practis
- Roedd yn ymddangos bod y tîm staff yn hapus iawn yn eu gwaith, yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau'n fedrus a chydag ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel
- Roedd cyfleusterau'r ystafelloedd triniaeth wedi eu cyfarparu'n dda, ac roedd yn amlwg eu bod yn lân, yn daclus ac wedi'u trefnu'n dda
- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio pelydrau-X yn ddiogel
- Roedd nodiadau clinigol cleifion o safon uchel
- Roedd systemau ar gyfer rheoli a monitro ansawdd y gwasanaeth yn erbyn gofynion y rheoliadau ar waith.

Rydym yn argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rheoli meddyginiaethau
- Gwastraff clinigol
- Arwyddion priodol y tu mewn i bob rhan o'r practis.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae The Dental Studio yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn ardal Llandudno. Mae’r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys un prif ddeintydd, un nyrs ddeintyddol, un nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant a derbynnydd. Y nyrs ddeintyddol sy'n cyflawni rôl rheolwr y practis.

Mae'r practis yn darparu amrediad o NHS and private wasanaethau deintyddol cyffredinol.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Canfuom dystiolaeth fod The Dental Studio yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion gyda staff sy'n gyfeillgar, yn broffesiynol ac yn ymroddedig.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod cleifion yn hapus iawn â'r gwasanaeth yr oedden nhw'n ei gael.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir.

Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 20 o holiaduron wedi'u cwblhau. Cwblhawyd pob un o'r holiaduron gan gleifion a oedd wedi bod gyda'r practis ers amser hir (y rhai hynny a oedd wedi bod yn gleifion yno ers dros ddwy flynedd).

Roedd adborth cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan.  Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Perffaith bob tro. Staff hyfryd a deintydd llawn cydymdeimlad.  Rwyf mor ffodus i gael y deintydd a'r tîm hwn.  Diolch."*
>
> *"Mae'r staff bob amser yn gyfeillgar.  Caiff unrhyw bryder ei gymryd o ddifrif a chaiff sylw ar yr apwyntiad cyntaf.  Mae'r practis bob amser yn lân ac yn daclus.  Rwyf wedi argymell y practis i deulu a ffrindiau.  Gwasanaeth rhagorol"*
>
> *"Rwyf wedi bod yn dod yma ers cyn cof, a hyd yn oed pan fo'r deintydd wedi newid, rwyf wastad wedi cael fy nhrin yn dda. Nid wyf byth ofn ymweld â'm deintydd"*
>
> *"Rwyf wastad wedi cael triniaeth dda ac rwyf wedi bod yn dod yma am nifer o flynyddoedd"*
>
> *"Rwy'n credu bod y practis yn broffesiynol iawn"*

## Cadw’n iach

Roedd digon o wybodaeth hybu iechyd deintyddol benodol ar gael, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth a allai eu cynorthwyo i ofalu am eu hylendid ceg eu hunain. Roedd posteri a thaflenni gwybodaeth amrywiol wedi'u harddangos a oedd yn rhoi gwybodaeth amrywiol i gleifion am y practis deintyddol a gwybodaeth am iechyd y geg. Roedd arwyddion 'dim ysmygu' wedi'u harddangos yn y practis. Roedd rhestrau prisiau wedi'u harddangos yn glir hefyd yn y man aros/derbynfa.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

## Gofal ag urddas

Heb eithriad, roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis. Roedd y sylwadau a ddarparwyd gan gleifion yn yr holiaduron a oedd yn canmol y staff yn cynnwys:

> *“Mae'r staff yn eithriadol, cymwynasgar iawn. Ni wela'i ddim o'i le arnynt”*
>
> *"Hapus iawn gyda'r staff a'r deintydd."*

Gwelsom hefyd pa mor gynnes, cyfeillgar a phroffesiynol roedd yr holl staff yn ymdrin â'r cleifion.

Roedd gan y practis drefniadau i amddiffyn preifatrwydd cleifion, gan gynnwys mannau i gleifion gael sgyrsiau preifat gyda'r staff. Derbyniwyd galwadau ffôn hefyd yn breifat, o glyw'r cleifion.

Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth deintyddol (lle roedd cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) wedi'u cadw ar gau i gynnal preifatrwydd ac urddas.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod yn teimlo'n rhan o'r penderfyniadau a wneir ynghylch ei driniaeth i’r graddau yr oedd yn dymuno, a'i fod wedi derbyn gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth oedd ar gael.

Cadarnhaodd y mwyafrif o'r cleifion a oedd wedi cael triniaeth yn y practis fod cost eu triniaeth bob amser yn cael ei hegluro'n glir iddynt, a'u bod yn deall sut roedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo.

Gwnaethom hefyd weld tystiolaeth o gynllunio triniaethau ac roedd opsiynau wedi'u cofnodi mewn sampl o gofnodion cleifion a welwyd gennym. Golygai hyn fod cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth.

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis wedi'i harddangos o gwmpas y dderbynfa ac yn y man aros. Roedd gan y practis ei lyfryn gwybodaeth cleifion ei hun i gleifion fynd ag ef gyda nhw.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd yr holl gleifion, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg, wrthym y gallent bob amser siarad â staff yn eu hiaith ddewisol.

## Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol bob amser yn cael ei ddarparu mewn modd amserol, a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd staff y broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad.

Cadarnhaodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Roedd rhif ffôn argyfwng y tu allan i oriau ar gael pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys ar gleifion y tu allan i oriau.  Roedd y rhif ffôn wedi'i arddangos wrth y brif fynedfa, ac roedd yn cael ei nodi ar neges peiriant ateb y practis ac ar y daflen wybodaeth i gleifion.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion cleifion, a chanfuom fod yr holl opsiynau triniaeth yn cael eu cofnodi a bod y practis yn cael caniatâd pob claf i wneud y driniaeth.

Roedd hanes meddygol cleifion yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn ystod pob ymweliad.  Cadarnhaodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

### Hawliau pobl

Gwnaethom nodi bod gan y practis bolisi cydraddoldeb pwrpasol ar waith.

Mae’r practis deintyddol ar y llawr cyntaf, ac nid yw'n gallu darparu mynediad ar gyfer cleifion anabl.  Fodd bynnag, mae'r practis yn rhoi manylion cyswllt llinell gymorth y GIG yn nhaflen wybodaeth y practis i gleifion nad ydynt yn gallu cael mynediad i'r safle.

### Gwrando a dysgu o adborth

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig ar waith ar gyfer cleifion GIG a phreifat.  Roedd y weithdrefn ar gyfer cwyno neu leisio pryder wedi'i harddangos yn glir yn y dderbynfa/man aros.  Roedd y manylion hefyd wedi'u cynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gwybod sut i leisio pryder neu wneud cwyn ynghylch y gwasanaethau y maen nhw'n eu derbyn yn y practis deintyddol.

Gwnaethom adolygu polisi'r practis ar gyfer ymdrin â chwynion ac, ar adeg yr arolygiad, nid oedd y practis wedi derbyn unrhyw gwynion ffurfiol.

Gwnaethom drafod dull y practis o fynd ati i gael adborth gan gleifion; ac mae'r practis yn gwneud hyn trwy ddarparu holiaduron i gleifion yn y man aros. Dywedodd y practis wrthym fod yr adborth yn cael ei drafod mewn cyfarfodydd tîm.  Gwnaethom gynghori'r practis i arddangos dadansoddiad o adborth y cleifion, a fyddai'n dangos i'r cleifion bod eu hadborth unigol wedi'i gasglu a bod y practis wedi gweithredu arno er mwyn gwella'r dysgu a datblygu’r gwasanaeth, a chytunodd y practis i wneud hyn.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y practis deintyddol wedi gofyn am eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yma, er enghraifft, trwy holiaduron cleifion.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Canfuom fod y practis yn cael ei redeg gyda'r bwriad o fodloni'r safonau perthnasol er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant staff a chleifion.

Roedd y practis yn darparu amgylchedd glân ac roedd yr ystafell driniaeth yn olau ac yn awyrog. Fodd bynnag, gwnaethom ganfod bod angen gwneud rhai gwelliannau o ran rheoli meddyginiaethau a'r cyflenwad dŵr poeth yn yr ystafell ddadheintio a chyfleusterau'r toiled.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Yn ystod taith o amgylch yr adeilad, gwelsom fod pob ardal yn lân ac yn daclus heb unrhyw beryglon amlwg. Fodd bynnag, argymhellwn fod y practis yn sicrhau bod arwyddion clir i gleifion ac ymwelwyr ar gyfer y cyfleusterau ar y safle, megis nodi'r dderbynfa a'r man aros, y toiledau, yr ystafell driniaeth, allanfeydd tân, mannau staff yn unig a mannau preifat.

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol. Roedd pob un o'r cleifion a lenwodd holiadur yn credu bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd un toiled deuryw ar gael i'w ddefnyddio gan y cleifion a'r staff. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw fin gwastraff glanweithiol ar gael. Gwnaethom hefyd gynghori'r practis i osod bin di-gyffwrdd yn lle'r bin sydd yn y toiled ar hyn o bryd.

Gwnaethom nodi fod profion offer cludadwy yn cael eu cynnal yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd diffoddwyr tân wedi'u lleoli trwy gydol yr adeilad ac roedd y rhain yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd y poster Iechyd a Diogelwch wedi'i arddangos yn glir ger y dderbynfa.

Canfuom fod yr holl gemegau'n cael eu cadw'n ddiogel, a dim un ohonynt yn cael eu gadael mewn mannau cyhoeddus. Roedd ffeil ar gael a oedd yn cynnwys nifer o daflenni data a oedd yn ymwneud â Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) ac roedd asesiadau risg perthnasol ar waith.

Roedd gan y practis system ar waith i reoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel. Roedd dogfennau contract ar gael ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Gwelsom fod y gwastraff wedi'i ddidoli i'r bagiau/cynwysyddion dynodedig, yn unol â'r dull gwaredu cywir, ac yn cael ei storio'n ddiogel pan oedd yn aros i gael ei gasglu.

Canfuom fod y blwch gwaredu offer miniog ar lawr yr ystafell driniaeth. Argymhellwn fod y practis yn sicrhau bod y blwch offer miniog yn cael ei osod ar wal yn agos at ble y caiff ei ddefnyddio. Gwnaethom hefyd argymell bod y practis yn trefnu bod unrhyw feddyginiaethau nas defnyddiwyd yn cael eu hychwanegu at ei gontract gwastraff.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Sicrhau bod yr holl gyfleusterau ar y safle wedi'u harwyddo'n glir i gleifion ac ymwelwyr, gan nodi ardaloedd cyhoeddus, preifat a staff yn unig.

Sicrhau bod bin gwaredu deunydd glanweithiol yn cael ei ddarparu yng nghyfleuster toiledau'r staff/cleifion, a gosod bin di-gyffwrdd yn lle’r bin a ddefnyddir ar hyn o bryd.

Sicrhau bod y blwch gwaredu offer miniog yn cael ei osod ar wal yn agos at ble y caiff ei ddefnyddio.

Ychwanegu cynhwysydd meddyginiaethau nas defnyddiwyd at y contract gwastraff.

## Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd y cyfleuster yn lân ac yn ddilanastr, wedi'i drefnu'n dda ac yn llawn offer.

Dangosodd staff y broses ddadheintio a gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar ddadheintio. Fodd bynnag, gwnaethom argymell fod y practis yn sicrhau bod brwshys sgrwbio â choes hir yn cael eu defnyddio yn y sinc sgrwbio. Gwnaethom hefyd argymell bod y practis yn gosod biniau di-gyffwrdd yn lle'r biniau a ddefnyddir ar hyn o bryd.

Canfuom hefyd nad oedd unrhyw ddŵr poeth ar gael yn yr ystafell dadheintio nac yn y toiled i gleifion/staff. Cafodd ein pryderon o ran y dŵr poeth sylw o dan ein proses sicrwydd ar unwaith. Mae manylion y gwelliannau a nodwyd gennym fel rhai yr oedd angen eu gwneud ar unwaith wedi'u darparu yn Atodiad B.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y practis wedi cynnal archwiliadau rheolaidd o reoli heintiau. Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi defnyddio Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, sef y safon ar gyfer arferion rheoli heintiau a dadheintio mewn practisau deintyddol yng Nghymru. Gwnaethom hefyd weld tystiolaeth bod y practis wedi cynnal archwiliadau o reoli heintiau'n ddiweddar, ar sail Memorandwm Technegol Iechyd 01-05, sef y safon ar gyfer Lloegr. Gwnaethom gynghori'r practis i gynnal archwiliadau rheoli heintiau a gefnogir gan Ddeoniaeth Cymru[1] yn unig, a chytunodd y practis i wneud hyn.

Roeddem yn fodlon bod gweithdrefnau priodol ar waith i leihau'r risg o groes-heintio er mwyn amddiffyn cleifion a staff. Gwnaethom hefyd sylwi bod yr offer deintyddol yn cael eu storio a'u cludo yn unol â'i bolisi dadheintio cyfredol.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Sicrhau bod brwsh sgrwbio â choes hir yn cael ei ddefnyddio yn y sinc sgrwbio.

Gosod bin di-gyffwrdd yn lle'r bin yn yr ystafell ddadheintio.

## Rheoli meddyginiaethau

[1] 1 https://www.walesdeanery.org/cy

Gwelsom fod gan y practis bolisi dadebru ar waith, a oedd â gweithdrefnau clir iawn o ran dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y tîm wedi derbyn yr hyfforddiant perthnasol. Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio mewn lleoliad a oedd yn sicrhau eu bod ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis.

Gwelsom dystiolaeth bod system effeithiol ar waith i wirio'r cyffuriau brys er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod o fewn eu dyddiad dod i ben a'u bod yn barod i'w defnyddio. Fodd bynnag, argymhellwn fod y practis yn cofnodi dyddiadau dod i ben cyfarpar llwybr anadlu a phadiau diffibriliwr.

Canfuom hefyd nad oedd y cyfarpar canlynol ar gael yn y pecyn a oedd gan y practis:

- bag ambu (uned anadlu artiffisial) maint oedolion a phlant
- mygydau wyneb clir meintiau 0,1,2,3 a 4
- cyfarpar llwybr anadlu meintiau 0,1,2 a 3

Cafodd ein pryderon o ran y pecyn argyfwng sylw o dan ein proses sicrwydd ar unwaith. Mae manylion y gwelliannau a nodwyd gennym fel rhai yr oedd angen eu gwneud ar unwaith wedi'u darparu yn Atodiad A.

Roedd yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd cyfredol. Mae'r prif ddeintydd wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf. Fodd bynnag, mae angen gloywi'r hyfforddiant. Mae tystysgrifau Cymorth Cyntaf yn para am dair blynedd o'u dyddiad cyhoeddi. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn argymell y dylai swyddogion cymorth cyntaf fynychu hyfforddiant gloywi bob blwyddyn i helpu i gynnal sgiliau sylfaenol ac i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau mewn gweithdrefnau cymorth cyntaf.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Cofnodi dyddiadau dod i ben cyfarpar llwybr anadlu a phadiau diffibriliwr.

Sicrhau bod aelod o staff wedi'i hyfforddi'n llawn mewn cymorth cyntaf.

## Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Gwelsom fod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed. Gwelsom fod gan y practis bolisi diogelu ar waith ar gyfer plant ac oedolion agored i niwed.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi cael gwiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'u bod wedi'u cofrestru gyda’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar yr ystafell driniaeth a chanfod ei bod yn cynnwys yr offer priodol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Gwnaethom sylwi fod yr ystafell driniaeth wedi'i chynllunio a'i threfnu i helpu’r tîm i weithio'n effeithlon, ac roedd yn amlwg yn lân iawn ac mewn cyflwr da.

Roedd yr offer radiolegol yn cael eu cynnal a chadw ac yn gweithio'n dda. Gwelsom dystiolaeth fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) mewn ffordd ddiogel. Gwelsom dystiolaeth bod y staff clinigol i gyd wedi diweddaru eu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio.

Canfuom nad oedd y practis wedi cynnal unrhyw archwiliadau sicrhau ansawdd ffurfiol o luniau pelydr-X.

Yr hyn y mae angen ei wella

Sicrhau bod archwiliadau ffurfiol yn cael eu cynnal ar sicrhau ansawdd lluniau pelydr-X.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella’r gwasanaeth a ddarperid yn barhaus. Roeddem yn gallu gweld bod archwiliadau wedi'u cwblhau a/neu'n cael eu trefnu gan y practis.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Trwy drafod â staff, cawsom wybod bod adolygiadau cymheiriaid yn cael eu cynnal yn rheolaidd ymhlith y staff clinigol, ac mae hyn yn cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir i gleifion.

Dywedodd y practis wrthym hefyd fod ganddo gynlluniau ar waith i ddefnyddio offeryn gwerthuso’r Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth. Mae hwn yn ddull o hunanwerthuso, sy'n galluogi'r tîm deintyddol i ganolbwyntio ar sut mae’n gweithio ac sy'n galluogi'r practis i ystyried yr ansawdd a’r gofal a ddarperir mewn amrywiaeth o feysydd.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copi wrth gefn o'r holl ffeiliau electronig yn cael ei wneud yn rheolaidd ac roedd mynediad at y sgriniau cyfrifiadur yn ddiogel ac yn breifat. Roedd polisi diogelu data ar waith.

### Cadw cofnodion

Roedd tystiolaeth fod y practis yn cadw cofnodion clinigol i safon uchel iawn. Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a chanfod bod cofnodion gofal cleifion yn cynnwys digon o wybodaeth o ran trafodaethau a gynhaliwyd ynghylch opsiynau triniaeth, costau, risgiau, buddion a sut y cafwyd caniatâd cleifion. Roedd hefyd tystiolaeth o gynllunio triniaeth ac roedd cynllun triniaeth yn cael ei roi i gleifion pan oedd angen. Roedd y deintydd yn cofnodi bod sgrinio am ganser wedi cael ei gynnal ac y rhoddwyd cyngor ynglŷn â rhoi'r gorau i ysmygu.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Canfuom dystiolaeth fod hwn yn bractis a oedd yn cael ei redeg yn dda iawn, gydag ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel ac i roi sylw i fanylion.

Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith.

Roedd y tîm staff yn ymddangos yn hapus yn eu gwaith ac yn cyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau'n fedrus.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi gweithio gyda'i gilydd am flynyddoedd maith, ac roedd ganddyn nhw berthynas dda â'i gilydd. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hyderus i godi unrhyw fater neu bryder gyda'r prif ddeintydd yn uniongyrchol.

Canfuom fod y staff yn glir ac yn wybodus ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau.

### Staff ac adnoddau

#### Gweithlu

Gwelsom ffolderi ymsefydlu staff a oedd wedi'u cwblhau, ac roedd y rhain wedi'u trefnu'n dda. Roedd gan yr holl staff fynediad at bolisïau a gweithdrefnau.

Gwelsom fod staff wedi ymgymryd ag amrywiaeth eang o hyfforddiant; gan fodloni a mynd uwchlaw'r gofynion Datblygiad Proffesiynol Parhaus, gan ymroi nifer o oriau i fynychu sesiynau hyfforddi. Gwelsom dystiolaeth hefyd o arfarniadau staff blynyddol a chyfarfodydd tîm rheolaidd.

Roedd y prif ddeintydd a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat, a gwelsom y dystysgrif gofrestru gydag AGIC wedi'i harddangos mewn lle amlwg, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Gwelsom gofnodion a oedd yn ymwneud â statws imiwneiddio rhag Hepatitis B yr holl staff a oedd yn gweithio yn y practis.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith a gwelsom eu bod yn adlewyrchu'r ymarfer gwirioneddol. Roedd yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn cynnwys dyddiad adolygu a/neu'n cael eu rheoli fesul fersiwn ac yn cynnwys llofnod staff, a oedd yn dangos eu bod wedi'u darllen a'u deall. Fodd bynnag, gwnaethom nodi fod gan y practis un polisi ar waith ar gyfer chwythu'r chwiban a thanberfformiad. Gwnaethom argymell i'r practis y dylai roi polisïau ar wahân ar waith ar gyfer chwythu'r chwiban a thanberfformiad.

Canfuom fod y practis yn arddangos ei fanylion cyswllt brys ac amserau agor y practis ar fynedfa'r adeilad. Roedd enw a chymwysterau'r prif ddeintydd hefyd wedi'u harddangos yn glir.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Sicrhau bod polisïau ar wahân ar waith ar gyfer chwythu'r chwiban a thanberfformiad.

# 4. Beth nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a uwchgyfeiriwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn nodi unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau brys y maent yn eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodir, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu a gymerir mewn ymateb i'r problemau a nodir yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn realistig ac yn amserol
- Cynnwys digon o fanylion i sicrhau AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau'n systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC lle mae angen cymryd camau gweithredu o hyd a/neu maent ar waith, a chadarnhau pryd yr aethpwyd i'r afael â hwy.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, bydd arolygiadau practisau deintyddol yn arolygiadau lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd o arolygiad. Gwneir hyn er mwyn gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn cael ei gynnal yn ôl yr arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o aflonyddwch i gleifion â phosib.

Mae adborth yn cael ei roi i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015 . Bydd unrhyw ddeintydd yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn destun darpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol https://www.gdc-uk.org/professionals/standards.

Mae’r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir mwy o fanylion am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen mynd i'r afael â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Canfuom nad oedd y cyfarpar canlynol ar gael yn y pecyn dadebru oedd gan y practis:<br>• bag ambu (uned anadlu artiffisial) maint oedolion a phlant<br>• mygydau wyneb clir meintiau 0,1,2,3 a 4<br>• cyfarpar llwybr anadlu meintiau 0,1,2 a 3 | Golygai hyn fod oedolion a phlant mewn perygl mewn sefyllfa o argyfwng. | Gwnaethom dynnu sylw'r staff at hyn, a gwnaethant drefnu bod yr eitemau hyn yn cael eu prynu ar unwaith. | Gwnaeth staff archebu'r cyfarpar ar unwaith ar ddiwrnod ein hymweliad i gyrraedd y diwrnod nesaf. |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: The Dental Studio, Llandudno

## Dyddiad yr arolygiad: 9 Ionawr 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Canfyddiad:<br>Canfuom nad oedd unrhyw ddŵr poeth ar gael yn yr ystafell ddadheintio na'r toiled.<br>Rhaid i berchennog y practis wneud trefniadau i sicrhau bod dŵr poeth yn cael ei ddarparu yn yr ystafell ddadheintio ac yn nhoiled y staff/cleifion. | WHTM 01-05 16.3b, 16.3f, Atodiad 2 | Bydd dau wresogydd dŵr dros sinc yn cael eu gosod gan blymwr a thrydanwr yn yr ystafell ddadheintio ac yn nhoiled y staff/cleifion erbyn 26 Ionawr 2018. | Fariborz Farsaikiya | 26 Ionawr 2018 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth:

## Enw (llythrennau bras):Fariborz Farsaikiya

## Swydd: Deintydd

## Dyddiad:16 Ionawr 2018

## Atodiad C – Cynllun gwella

### Gwasanaeth: The Dental Studio, Llandudno

### Dyddiad yr arolygiad: 9 Ionawr 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Amherthnasol | | | | |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Sicrhau bod yr holl gyfleusterau ar y safle wedi'u harwyddo'n glir i gleifion ac ymwelwyr, gan nodi ardaloedd cyhoeddus, preifat a staff yn unig. | 2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch | Mae'r holl gyfleusterau ar y safle wedi'u harwyddo'n glir i gleifion ac ymwelwyr, gan nodi ardaloedd cyhoeddus, preifat a staff yn unig. | S. Ardalan | 14 Chwefror 2018 |
| Sicrhau bod bin gwaredu deunydd glanweithiol yn cael ei ddarparu yng nghyfleuster toiledau'r | | Mae bin gwaredu deunydd glanweithiol yn cael ei ddarparu yng nghyfleuster | S. Ardalan | 25 Ionawr 2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| staff/cleifion, a gosod bin di-gyffwrdd yn lle’r bin a ddefnyddir ar hyn o bryd. | | toiledau'r staff/cleifion, ac mae bin di-gyffwrdd wedi’i osod yn lle’r bin arall. | | |
| Sicrhau bod y blwch gwaredu offer miniog yn cael ei osod ar wal yn agos at ble y caiff ei ddefnyddio. | | Mae'r blwch gwaredu offer miniog wedi'i osod ar wal yn agos at ble y caiff ei ddefnyddio. | F. Farsaikiya | 18 Ionawr 2018 |
| Ychwanegu cynhwysydd meddyginiaethau nas defnyddiwyd at y contract gwastraff. | | Mae cynhwysydd meddyginiaethau nas defnyddiwyd wedi'i ychwanegu at y contract gwastraff gyda Cannon Hygiene. | S. Ardalan | 14 Chwefror 2018 |
| Sicrhau bod brwsh sgrwbio â choes hir yn cael ei ddefnyddio yn y sinc sgrwbio. | 2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio | Mae brwsh sgrwbio â choes hir yn cael ei ddefnyddio yn y sinc sgrwbio. | S. Ardalan | 11 Ionawr 2018 |
| Gosod bin di-gyffwrdd yn lle’r bin yn yr ystafell ddadheintio. | | Mae bin di-gyffwrdd wedi’i osod yn lle’r bin yn yr ystafell ddadheintio. | S. Ardalan | 11 Ionawr 2018 |
| Cofnodi dyddiadau dod i ben cyfarpar llwybr anadlu a phadiau diffibriliwr. | 2.6 Rheoli meddyginiaethau | Mae dyddiadau dod i ben cyfarpar llwybr anadlu a phadiau diffibriliwr yn cael eu cofnodi. | S. Ardalan | 11 Ionawr 2018 |
| Sicrhau bod aelod o staff wedi'i hyfforddi'n llawn mewn cymorth cyntaf. | | Mae [enw'r staff] wedi cwblhau cwrs cymorth cyntaf yn y gweithle. | F. Farsaikiya | 12 Chwefror 2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Sicrhau bod archwiliadau ffurfiol yn cael eu cynnal ar sicrhau ansawdd lluniau pelydr-X. | 2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol | Mae archwiliadau sicrhau ansawdd yn cael eu cynnal ar luniau pelydr-X. | S. Ardalan | 14 Chwefror 2018 |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Sicrhau bod polisïau ar wahân ar waith ar gyfer chwythu'r chwiban a thanberfformiad. | 7.1 Y gweithlu | Mae polisïau ar wahân ar waith ar gyfer chwythu'r chwiban a thanberfformiad. | S. Ardalan | 7 Chwefror 2018 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):** **Fariborz Farsaikiya**

**Swydd:** **Deintydd**

**Dyddiad:** **14 Chwefror 2018**